

Cydymaith Botanegol

Safleoedd Claddu

Mae mwy nag 20,000 o safleoedd claddu yng Nghymru a Lloegr, yn amrywio o fynwentydd eglwys canoloesol gwledig, bach i fynwentydd dinesig Fictoraidd, mawr sy'n rhychwantu gwahanol ddiwylliannau, crefyddau a chanrifoedd. Gan apelio at lawer sydd â diddordeb mewn hanes lleol a byd natur, mae safleoedd claddu yn crynhoi hanes cymunedau a hefyd yn cynnig lloches i'n bywyd gwyllt brodorol. I lawer o bobl, safleoedd claddu yw'r unig fannau gwyrdd sydd ar gael yn lleol. Fodd bynnag, ni ellir cymryd eu gwerth o ran treftadaeth, a hyd yn oed eu presenoldeb parhaus, yn ganiataol. Maent dan fygythiad o gael eu datblygu, eu cau, eu rheoli a'u camreoli. Rydym yn gweithio'n genedlaethol i gefnogi grwpiau ac unigolion i ymchwilio i'r safleoedd unigryw hyn, gofalu amdanynt a'u mwynhau.

Gall safleoedd claddu fod â glaswelltiroedd gwych gydag amrywiaeth gyfoethog o blanhigion, anifeiliaid a ffyngau. Gall safle claddu gynnwys yr unig ardal o laswelltir llawn blodau sydd wedi goroesi mewn plwyf. Mae hyn yn arbennig waeth beth fo hyd y glaswellt neu a yw'r planhigion yn blodeuo ai peidio.

Er nad oes angen i chi wybod yn union beth sy'n tyfu yn eich safle claddu i'w reoli'n dda, gall fod yn ddiddorol dysgu am y planhigion a'r mathau o laswelltir sy'n bresennol. Gall rhai fod yn eithaf anghyffredin, a bydd eich canlyniadau o ddiddordeb i grwpiau cadwraeth bywyd gwyllt lleol yn ogystal â Gofalu am Erw Duw, yn benodol drwy gyfrannu gwybodaeth ar gyfer ein menter genedlaethol, Y Safe Claddu Hardd.

Yr Arolwg

1. Tynnu llun map
2. Cyfrif faint o wahanol rywogaethau o blanhigion sydd mewn plot bychan
3. Creu rhestr o rywogaethau
4. Gwneud synnwyr o'ch darganfyddiadau
5. Dweud wrth bobl am eich canfyddiadau ac ystyried opsiynau rheoli

Bydd y llyfryn hwn yn eich helpu chi i ddechrau dysgu am blanhigion y glaswelltir; sut i gofnodi rhywogaethau a beth gellir ei wneud gyda'r wybodaeth rydych yn ei chasglu. Nid oes angen i chi allu adnabod pob planhigion, dim ond rhoi cynnig ar gymaint o gamau yn y Cydymaith ag y gallwch chi. Mae'r Cydymaith ar gael ar ffurf copi caled ac fel lawrlwythiad o www.caringforgodsacre.org.uk. Efallai yr hoffech gael un copi caled ac wedyn lawrlwytho'r Daflen Gryno, y Rhestr Rhywogaethau a'r Siart Rhywogaethau Dangosydd er mwyn ysgrifennu ar set o'r rhain bob tro byddwch yn cynnal arolwg ar safle claddu.

Mae gan y llyfryn hwn gyfeiriadau at y taflenni o'n Pecyn Gweithredu Mynwentydd a Safleoedd Claddu sydd i'w weld ar ein gwefan ni. Er enghraifft; A2 (Gofalu am Laswelltir). Mae'r taflenni hyn yn adnoddau amhrisiadwy ar gyfer rheoli safleoedd claddu.

llygad-llo mawr

cneuen y ddaear

amlaethai'r waun

briwydd wen

y bengaled fawr

clust y llygoden



1. Tynnu llun map


Mae map yn ddefnyddiol ar gyfer cael syniad o'r rheolaeth sydd ar waith ac ymhle, sydd yn ei dro'n dylanwadu ar ba blanhigion sy'n bresennol.

Mae rheolaeth fel torri gwair a chribinio'n debygol o effeithio ar ansawdd y glaswelltir ond nid y math o laswelltir. Yn yr un modd, efallai y bydd gan estyniad newydd i safle claddu lai o blanhigion gwahanol o gymharu â'r rhan hyn.

Mae *Ansawdd y Glaswelltir* yn dibynnu ar reoli'r safle. Yn yr arolwg hwn, rydym yn cyfrif nifer y gwahanol rywogaethau sy'n bresennol. Gall gynnwys llawer a chael ei gategoreiddio fel cyfoethog, neu ychydig a chael ei gategoreiddio fel gwael.

Mae'r *Math o Laswelltir* yn dibynnu ar ffactorau fel y math o bridd, y graig sylfaen, glawiad ac altitud. Yn yr arolwg hwn rydym yn asesu 3 math yn seiliedig ar bridd a'r graig sylfaen.

Efallai bod gennych chi fap o ardaloedd rheoli eisoes. Am help gyda mapio, edrychwch ar A1 yn ein Pecyn Gweithredu (Y Pum Cam at Ofalu am Fynwentydd a Safleoedd Claddu). Siaradwch gyda'r bobl sy'n rheoli'r safle wrth lunio'r map, byddant yn gwybod pa ardaloedd sy'n laswellt tal neu fyr, hyd yn oed os yw'r ardal o laswellt tal newydd gael ei thorri.



creulys

effros

ysgall siarl



2. Faint o wahanol rywogaethau o blanhigion sydd yn y plot?

Dewiswch eich plotiau i ddechrau

Edrychwch ar eich map a gweld faint o wahanol ardaloedd sydd ar y safle. Efallai bod sawl math: byr, canolig, tal, twmpathog, cysgodol iawn, hen a newydd. Yn ddelfrydol, mae angen i chi osod plot arolygu ym mhob un o'r ardaloedd hyn, ond os nad oes digon o amser, neu os yw'r ardaloedd yn fach, dewiswch blot yn y prif ardaloedd neu yn y rhan lle rydych chi'n gwybod bod llawer o flodau.

Mesurwch blot sgwâr 2m wrth 2m mewn ardal sydd ddim yn cynnwys henebion mawr ac sy'n edrych fel pe bai ganddi amrywiaeth dda o rywogaethau o blanhigion. Nid oes angen i'r plot sgwâr hwn fod yn fanwl iawn a gall marcwyr y corneli fod yn unrhyw beth sydd wrth law; bocs bwyd, fflasg, carreg ddefnyddiol. Efallai y bydd y gwirfoddolwyr brwd iawn yn ystyried dod â ffyn bambw wedi'u torri fel marcwyr.

Cyfrwch nifer y gwahanol fathau o blanhigion welwch chi yn y plot – does dim angen eu hadnabod, dim ond cyfrif!

COFIWCH gynnwys rhedyn, glaswelltau a hesg.

PEIDIWCH â chynnwys ffyngau, cennau na mwsoglau.

Ceisiwch gynnwys glaswelltau hyd yn oed os na allwch eu hadnabod. Rhowch eich enwau eich hun iddynt; dail llydan, dail nodwyddau, coesyn blewog os yw hynny'n helpu ond cofiwch gyfrif faint o wahanol fathau sydd. Os ydynt yn edrych yn wahanol i'w gilydd, mae'n debygol eu bod yn wahanol rywogaethau. I helpu gyda hyn, efallai yr hoffech ddewis deilen o bob un a'u gosod ar ddalen o bapur. Mae hyn yn helpu i gadw cofnod o'r hyn rydych yn dod o hyd iddo.

Weithiau gall ardaloedd fod â llawer o rywogaethau heb fod â glaswelltir o ansawdd uchel. Gall hwn fod yn dir y mae tarfu wedi bod arno, sy'n cynnwys ysgall, danadl poethion neu dafol. Os ydych chi'n credu bod hyn yn wir, gwnewch nodyn, oherwydd bydd hyn yn cael ei gofnodi'n wahanol yn nes ymlaen.

3. Creu rhestr o rywogaethau

Crwydrwch drwy'r safle claddu i gyd gyda chopi o'r Rhestr o Rywogaethau Safleoedd Claddu (tt 13 -17) yn ticio planhigion rydych yn gallu eu hadnabod. Mae'r rhestr yn cynnwys y rhan fwyaf o'r rhywogaethau rydych yn debygol o ddod o hyd iddynt, ond nid yw'n gynhwysfawr: mae'r rhesi gwag ar ddiwedd y rhestr ar gyfer ychwanegu rhywogaethau eraill.

Efallai y bydd arnoch chi angen defnyddio canllawiau adnabod blodau gwylt a glaswelltau

Mae nifer o ganllawiau defnyddiol ar gael ac efallai bod gennych chi ffefryn. Un poblogaidd yw The Wildflower Key by Rose sydd wedi'i gyhoeddi gan Frederick Warne Books.

Mae'r Field Studies Council wedi creu siartiau plygu a all fod o ddefnydd, yn enwedig ar gyfer glaswelltau.

Yn anffodus, dim ond yn Saesneg mae'r canllawiau canlynol ar gael:

Wildlife of Burial Grounds, OP 166

Describing Flowers, OP42

Grassland Plants 1 Identification Guide, OP68

Grassland Plants 2 Identification Guide, OP95

Grasses Identification Guide, OP 136

Ferns Identification Chart, OP94

4. Gwneud Synnwyr o'ch

Canlyniadau

Mae'r adran hon yn cynnwys defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu i asesu ansawdd a math y glaswelltir yn eich safle claddu. Mae hon yn wybodaeth ddefnyddiol i fotanegwyr a rheolwyr safleoedd claddu hefyd.

Sut i lenwi'r **Daflen Gryno** (tt 11-12).

Llenwch enw a lleoliad eich safle claddu, mae'r cod post yn ddefnyddiol os yw gennych chi.

Cofiwch gynnwys yr holl wirfoddolwyr cysylltiedig a hefyd enw eich grŵp os oes gennych chi enw.

Ansawdd y Glaswelltir

Ar ôl i chi gyfrif plotiau 2m wrth 2m, gallwch nodi cyfrif eich plotiau yn y bocsys o dan y teitl Ansawdd y Glaswelltir, Nifer y Rhywogaethau ym mhob plot.

Defnyddiwch y map i lenwi'r rhes nesaf o focsys; Categori Rheoli.

Nawr mae angen i chi asesu Ansawdd y Glaswelltir. Defnyddiwch y siart isod i weld pa gategori mae eich plotiau'n ffitio i mewn iddo a llenwch gyda byrfodd.

Os oedd eich plot yn llawn chwyn, yn cynnwys sawl planhigyn o'r canlynol: danadl poethion, tafol neu ysgall, cofnodwch y plot fel D (ar gyfer ardaloedd llawn chwyn neu lle mae tarfu wedi bod).

clychau'r eos

ytbys y ddôl

serenllys bach

llysiaur dryw

llyriad llwyd

blodyn neidr



Siart Ansawdd y Glaswelltir

Categori **Nifer y rhywogaethau mewn plot 2 x 2m** **Byrfodd Ansawdd y Glaswelltir**

Ar gyfer gwyndwn byr, canolig a thal:

Cyfoethog	Mwy nag 20	R
Da	17 – 20	G
Cymedrol	11 – 16	M
Gwael	8 – 11	P
Wedi'i wella neu ddymunol	Llai nag 8	

Ar gyfer gwyndwn twmpathog neu heb ei reoli:

Twmpathog - cyfoethog	Mwy nag 16	TR
Twmpathog - cymedrol	11 – 16	TM
Twmpathog - gwael	Llai nag 11	TP

Ar gyfer ardaloedd lle mae tarfu wedi bod/llawn chwyn

Lle mae tarfu wedi bod	Cyfanswm y cyfrif	D
------------------------	-------------------	---

Defnyddiwch eich Rhestr o Rywogaethau Safleoedd Claddu i gael cyfanswm y rhywogaethau rydych wedi gallu eu hadnabod. Rhowch y cyfanswm hwn ar y Daflen Gryno – Cyfrif o Rywogaethau.

Gan ddefnyddio eich Rhestr o Rywogaethau Safleoedd Claddu eto, mae nawr yn amser cael Math o Laswelltir.

Math o Laswelltir

Ar ôl asesu ansawdd y glaswelltir, mae nawr yn amser asesu'r math o laswelltir; mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol os yw'r ansawdd wedi'i gategoreiddio fel Cyfoethog (R), Da (G) neu Gymedrol (M).

Bydd y math o laswelltir yn adlewyrchu pridd a chraig sylfaen y safle. Yn gyffredinol, mae tri math: asid, calchaid (neu alcali) a niwtral.



• **Glaswelltiroedd niwtral:**
mae'n debyg mai'r rhain sydd fwyaf cyffredin mewn safleoedd claddu, sydd i'w gweld ar draws iseldiroedd, yn aml ar briddoedd dwfn. Yn gyffredinol, mae priddoedd niwtral yn briddoedd ffermio da.



• **Glaswelltiroedd calchaid:**
mae'r glaswelltiroedd yma i'w gweld yn gyffredinol mewn ardaloedd â chraig galchfaen neu sialc ac maent yn aml yn gyfoethog iawn mewn blodau.



• **Glaswelltiroedd asid:**
yn tueddu i gynnwys rhywogaethau rhostir neu weundir ac maent yn gyffredin ar briddoedd tywodlyd yn yr iseldiroedd yn ogystal ag yn yr ucheldiroedd.

Edrychwch ar eich Rhestr o **Rywogaethau Safleoedd Claddu**: tynnwyd sylw at rai o'r rhywogaethau. Yr enw ar y rhain yw rhywogaethau dangosydd am eu bod yn blanhigion sy'n tueddu i fodoli mewn mathau penodol o laswelltir (asid, calchaid, niwtral).

Gan ddefnyddio'r **Siart o Rywogaethau Dangosydd** (t 18) rhowch gylch o amgylch y rhywogaethau hynny rydych wedi'u ticio ar eich rhestr. Mae rhai planhigion yn digwydd mewn mwy nag un math o gynefin felly maent i'w gweld mewn mwy nag un golofn. Yn yr achos hwn dylech gylchu'r X ddwy waith. Efallai mai ychydig iawn o'r rhywogaethau dangosydd hyn sydd gennych chi, mae hyn yn eithaf arferol.

glesyn y coed

meillion coch

pansi melyn y mynydd

blodyn y gwynt

tegeirian coch y gwanwyn

suran y coed



Cyfrwch sawl X rydych chi wedi'i chylchu ym mhob colofn ac ysgrifennwch y cyfanswm hwn ar waelod y siart. Mae'r sgôr uchaf yn dangos y math o laswelltir. Nawr llenwch y **Daflen Gryno – Math o Laswelltir** (t 12).

Beth os yw'r sgôr yn gyfartal?

Weithiau byddwch yn cael nifer cyfartal mewn dwy golofn, peidiwch â phoeni am hyn. Gall rheoli ardal arwain at gymysgeddau rhyfedd o rywogaethau'n tyfu gyda'i gilydd. Cofnodwch y canlyniadau ar y **Daflen Gryno**.

5. Dywedwch wrth bobl am eich canfyddiadau

Mae cofnodion biolegol yn bwysig ar gyfer gweld lle mae cynefinoedd cyfoethog i'w cael a hefyd sut mae cefn gwlad yn newid. Anfonwch gopi o'ch Rhestr o Rywogaethau Safleoedd Claddu a'ch Taflen Gryno at Gofalu am Erw Duw. Rydym yn creu set ddata genedlaethol o rywogaethau sy'n cael eu cofnodi mewn safleoedd claddu a bydd eich rhestr o rywogaethau'n cael ei hychwanegu at hyn. Edrychwch ar y tudalennau Safle Claddu Hardd ar ein gwefan ni; gallwch uwchlwytho eich rhestr o rywogaethau eich hun neu ei hanfon atom i'w huwchlwytho. Gallech hefyd ystyried cysylltu â sefydliadau cadwraeth lleol fel eich Ymddiriedolaeth Natur Sirol neu gangen leol o Gymdeithas Fotaneg Ynysoedd Prydain.

Os oes gennych chi laswelltir o ansawdd Cyfoethog, Da neu Ganolig, efallai y byddai eich cangen leol o Gymdeithas Grwpiau Ffyngau Prydain neu Gymdeithas Fycolegol Prydain yn hoffi chwilio am ffyngau glaswelltir yno yn yr hydref.

Mae gan rai safleoedd claddu laswelltir mor gyfoethog o ran rhywogaethau fel eu bod wedi cael statws Safle Bywyd Gwyllt Lleol (dynodiad anstatudol). Beth am ofyn i'r Ymddiriedolaeth Natur Sirol a yw eich safle'n gymwys?

Dywedwch wrth eich cymuned leol am yr arolwg a'r planhigion a ganfuwyd. Efallai y gallech roi arddangosfa yn y cyntedd neu ar hysbysfwrdd, neu ysgrifennu erthygl ar gyfer y wasg leol neu gylchgrawn y plwyf; edrychwch ar D4 yn ein Pecyn Gweithredu (Adrodd y Stori – Dehongli).

Ystyried opsiynau rheoli

Os byddwch yn darganfod bod y glaswelltir yn arbennig o gyfoethog mewn blodau, beth am ddathlu hyn a rheoli'r ardal ar gyfer y blodau; edrychwch ar A2 (Gofalu am Laswelltir) ac A3 (Torri Glaswellt Tal a Delio â Glaswellt Wedi'i Dorri).

Mae dirywiad cenedlaethol o tua 98% wedi bod yn ystod y 70 mlynedd diwethaf mewn glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau, fel sydd i'w weld mewn safleoedd claddu, felly mae'n werth ei ddathlu! Meddyliwch ddwywaith am blannu coed yn y glaswelltir yma, neu adael iddo dyfu'n laswellt twmpathog neu brysgwydd. Gall Gofalu am Erw Duw eich cynghori chi am reolaeth, felly cofiwch gysylltu â ni.

SIART O RYWOGAETHAU DANGOSYDD
Niwtral (N), Calchaid (C), Asid (A)

	N	C	A	
Amlaetha'r Waun				<i>Polygala serpyllifolia</i>
Blodyn Llefrith	X	X	X	<i>Cardamine pratensis</i>
Breichwellt y Calch				<i>Brachypodium pinnatum</i>
Brigwellt Main		X		<i>Deschampsia flexuosa</i>
Brigwellt y Gwanwyn			X	<i>Aira praecox</i>
Briweg boeth			X	<i>Sedum acre</i>
Briwydd Wen		X	X	<i>Galium saxatile</i>
Cawnen Ddu		X	X	<i>Nardus stricta</i>
Ceirchwellt Tal		X	X	<i>Arrhenatherum elatius</i>
Ceirchwellt y Ddôl	X			<i>Helictotrichon pratense</i>
Chwerwys yr Eithin		X		<i>Teucrium scorodonia</i>
Clefryn		X	X	<i>Jasione Montana</i>
Clust y Llygoden			X	<i>Pilosella officinalis</i>
Cneuen y Ddaear		X	X	<i>Conopodium majus</i>
Cor-Rosyn Cyffredin	X	X	X	<i>Helianthemum nummularium</i>
Cribell Felen		X	X	<i>Rhinanthus minor</i>
Cynffonwellt y Maes	X	X		<i>Alopecurus pratensis</i>
Effros blodau mawr	X	X		<i>Euphrasia officinalis etc</i>
Erwain	X	X		<i>Filipendula ulmaria</i>
Ffacbysen y Cloddiau	X	X		<i>Vicia sepium</i>
Ffenigl yr Hwch	X			<i>Silva silaus</i>
Glesyn y Coed	X			<i>Ajuga reptans</i>
Harebell Clychau'r Eos	X			<i>Campanula rotundifolia</i>
Llusen		X	X	<i>Vaccinium myrtillus</i>
Llwydwelt y Calch			X	<i>Sesleria albicans</i>
Llygad-Llo Mawr	X	X		<i>Leucanthemum vulgare</i>
Llysiau'r Dryw	X	X		<i>Agrimonia eupatoria</i>
Llysiau'r Neidr	X	X		<i>Polygonum bistorta</i>
Mantell-Fair	X	X		<i>Alchemilla glabra</i>
Marchwenn yr Ardir	X	X		<i>Equisetum arvense</i>
Pawrwellt Talsyth	X	X		<i>Bromus erectus</i>
Pig-yr-Aran y Coed	X	X		<i>Geranium sylvaticum</i>
Rhygwellt Parhaol	X	X		<i>Lolium perenne</i>
Suran y Cwn	X	X		<i>Rumex acetosella</i>
Tegeirian Bera		X	X	<i>Anacamptis pyramidalis</i>
Troed y Ceiliog	X	X	X	<i>Doctylis glomerata</i>
Troed y Dryw			X	<i>Aphanes arvensis</i>
Troed yr Aderyn			X	<i>Ornithopus perpusillus</i>
Y Ganrhi Felen		X		<i>Blackstonia perfoliata</i>
Ysqallen Siarl		X		<i>Carlina vulgaris</i>
Ytbsen y Ddôl	X	X		<i>Lathyrus pratensis</i>

Cyfanswm 446

Rheol Euraid: casglwch unrhyw laswellt sydd wedi'i dorri a'i symud o'r safle, beth bynnag yw hyd y glaswellt

Gall rheoli ardal ar gyfer blodau gwyllt fod yn ddefnyddiol er mwyn ennyn diddordeb a denu gwirfoddolwyr; edrychwch ar D1 (Cynnwys Gwirfoddolwyr). Mae llawer o bobl sy'n hoff iawn o flodau gwyllt a allai helpu i reoli'r lle arbennig hwn unwaith y byddant yn gwybod amdano.

Taflen Gryno

Enw a lleoliad y fynwent neu'r safle claddu:

Dyddiad yr ymweliad:

Enw'r gwirfoddolwyr:

ANSAWDD Y GLASWELLTIR – plot 2m wrth 2m

Ardaloedd Asesu:

Marciwch ar y map

Plot 1 Plot 2 Plot 3

Nifer y rhywogaethau ym mhob plot

Categori Rheoli:

Byr, canolig, tal, twmpathog, hen, estyniad newydd ac ati

Ansawdd y Glaswelltir:

R, G, M, P, I, TR, TM, TP, D

CYFRIF RHYWOGAETHAU

Cyfanswm y rhywogaethau yn y safle claddu

MATH O LASWELLTIR

Cyfrif Rhywogaethau Dangosydd oddi ar y siart

Nifer y rhywogaethau

Niwtral (N)

Calchaid (C)

Asid (A)

tegeirian bera



erwain



cribell felen



Rhestr o Rywogaethau Safleoedd Claddu

PLANHIGION SY'N BLODEUO

Alan Mawr	<i>Petasites hybridus</i>
Alan Pêr	<i>Petasites fragrans</i>
Amlaethal Cyffredin	<i>Polygala vulgaris</i>
Amlaethai'r Waun	<i>Polygala serpyllifolia</i>
Amranwen ber	<i>Matricaria recutita</i>
Barf yr Afr	<i>Tragopogon pratensis</i>
Berwr Chwerw Blewog	<i>Cardamine hirsuta</i>
Berwr y gaef	<i>Barbarea vulgaris</i>
Blodyn Llefrith	<i>Cardamine pratensis</i>
Blodyn Neidr	<i>Silene dioica</i>
Blodyn y Gwynt	<i>Anemone nemorosa</i>
Blodyn Ymenyn	<i>Ranunculus acris</i>
blodyn-Mihangel dyrys	<i>Aster novi-belgii</i>
Blodyn-Ymenyn Bondew	<i>Ranunculus bulbosus</i>
Blodyn-Ymenyn Peneuraid	<i>Ranunculus auricomus</i>
Blodyn-Ymenyn Ymlusgol	<i>Ranunculus repens</i>
Brenhinlys Gwyllt	<i>Clinopodium vulgare</i>
Brenhinlys y maes	<i>Acinus arvensis</i>
Bresychen y Cwn	<i>Mercurialis perennis</i>
Briallen	<i>Primula vulgaris</i>
Briallen Fair	<i>Primula veris</i>
Briwog boeth	<i>Sedum acre</i>
Briwog y Cerrig	<i>Sedum anglicum</i>
Briwlys y Gwrych	<i>Stachys sylvatica</i>
Briwydd Bêr	<i>Galium odoratum</i>
Briwydd Felen	<i>Galium verum</i>

Cyfordwf	<i>Symphytum officinale</i>
Cyfordwf Rwsia	<i>Symphytum x uplandicum</i>
Cyfordwf Rwsia	<i>Anthriscus sylvestris</i>
Cyngaf bach	<i>Arctium minus</i>
Dail Arian	<i>Galanthus nivalis</i>
Dail Tafol	<i>Rumex obtusifolius</i>
Danhadlen Boeth	<i>Urtica dioica</i>
Dant y Llew Cyffredin	<i>Taraxacum agg.</i>
Dant y Pysgodyn	<i>Serratula tinctoria</i>
Deilen Gron	<i>Umbilicus rupestris</i>
Effros blodau mawr	<i>Euphrasia agg.</i>
Efwr	<i>Heracleum sphondylium</i>
Eglyn bob yn eilddail	<i>Chrysosplenium oppositifolium</i>
Eidral	<i>Glechoma hederacea</i>
Eirlys	<i>Saponaria officinalis</i>
Elinog	<i>Solanum dulcemara</i>
Erwain	<i>Filipendula ulmaria</i>
Eurinlys Blewog	<i>Hypericum hirsutum</i>
Eurinlys Mawr	<i>Hypericum maculatum</i>
Eurinlys meinsyth	<i>Hypericum pulchrum</i>
Eurinlys Trydwill	<i>Hypericum perforatum</i>
Eurwialen	<i>Solidago virgaurea</i>
Eurwialen Canada	<i>Solidago canadensis</i>
Ffacbysen	<i>Vicia sativa</i>
Ffacbysen Flewog	<i>Vicia hirsuta</i>
Ffacbysen y Berth	<i>Vicia cracca</i>
Ffacbysen y Cloddiau	<i>Vicia sepium</i>

Briwydd Wen	<i>Galium saxatile</i>
Briwydd y Clawdd	<i>Galium mollugo</i>
Bwrned	<i>Sanguisorba minor</i>
Byddon Chwerw	<i>Eupatorium cannabinum</i>
Byssedd y Cwn	<i>Digitalis purpurea</i>
Caineirian	<i>Listera ovata</i>
Canewin	<i>Sedum telephium</i>
Carn yr Ebol	<i>Tussilago farfara</i>
Cartheig	<i>Lapsana communis</i>
Cenhinen Bedr	<i>Narcissus pseudonarcissus</i>
Chwerwlys yr Eithin	<i>Teucrium scorodonia</i>
Chwynnyn pinafal	<i>Matricaria discoidea</i>
Clafillys y Maes	<i>Knautia arvensis</i>
Clefryn	<i>Jasione montana</i>
Clust y Llygoden	<i>Pilosella officinalis</i>
Clust yr Arth	<i>Sanicula europaea</i>
Clust-y-Llygoden Gulddail	<i>Cerastium fontanum</i>
Clychau'r Eos	<i>Campanula rotundifolia</i>
Clychau'r Gog	<i>Endymion nonscriptus</i>
Cneuen y Ddaear	<i>Conopodium majus</i>
Cor-Rosyn Cyffredin	<i>Helianthemum nummularium</i>
Corwyddyn Gorweddol	<i>Sagina procumbens</i>
Craf y Geifr	<i>Allium ursinum</i>
Creulys	<i>Senecio vulgaris</i>
Creulys Bendigaidd	<i>Hypericum androsaenum</i>
Cribau San Fraid	<i>Betonica officinalis</i>
Cribau'r -Pannwr Gwyllt	<i>Dipsacus fullonum</i>
Cribell Felen	<i>Rhinanthus minor</i>
Crwynllys yr Hydref	<i>Gentianella amarella</i>
Cwlwm y Cythraul	<i>Convolvulus arvensis</i>

Ffenigl yr Hwch	<i>Silaum silaus</i>
Fioled Bêr	<i>Viola odorata</i>
Fioled Flewog	<i>Viola hirta</i>
Fioled Gyffredin	<i>Viola riviniana</i>
Fioled y coed	<i>Viola reichenbachiana</i>
Garleg y Berth	<i>Alliaria petiolata</i>
Geranium lucidum	<i>Geranium lucidum</i>
Glesyn y Coed	<i>Ajuga reptans</i>
Gludlys Codrwrth	<i>Silene vulgaris</i>
Gludlys Gwyn	<i>Silene latifolia</i>
Gwalchlys Garw	<i>Crepis biennis</i>
Gwalchlys Llyfn	<i>Crepis capillaris</i>
Gwiberlys	<i>Echium vulgare</i>
Gwifffrai	<i>Achillea millefolium</i>
Gwlyddyn Melyn Mair	<i>Lysimachia nemorum</i>
Gwlyddyn y Dom	<i>Stellaria media</i>
Gwreiddiriog	<i>Pimpinella saxifraga</i>
Gwylaeth y Fagwyr	<i>Mycelis muralis</i>
Gwylaeth yr Oen	<i>Valerianaella locusta</i>
Helyglys Hardd	<i>Chamerion angustifolium</i>
Helyglys Llydan ddail	<i>Epilobium montanum</i>
Helyglys Pêr	<i>Epilobium hirsutum</i>
Hocysen	<i>Malva sylvestris</i>
Hocysen Fwsog	<i>Malva moschata</i>
Iorwog	<i>Hedera helix</i>
Lili'r Dyffrynnoedd	<i>Convallaria majalis</i>
Llaethlys Bach	<i>Euphorbia peplus</i>
Llaethysgallen Arw	<i>Sonchus asper</i>
Llaethysgallen Lefn	<i>Sonchus oleraceus</i>
Llaethysgallen y Tir Âr	<i>Sonchus arvensis</i>

✓	Llaur Offeiriad	<i>Galium aparine</i>
	Llin y Llyffant	<i>Linaria vulgaris</i>
	Llin y Tylwyth Teg	<i>Linum catharticum</i>
	Llin-y-Llyffant Porffor	<i>Linaria purpurea</i>
	Llusen	<i>Vaccinium myrtillus</i>
	Llwyn Coeg-Fefus	<i>Potentilla sterilis</i>
	Llwyn Mefus Gwyllt	<i>Fragaria vesca</i>
	Llwyn Mwyar Duon	<i>Rubus fruticosus agg.</i>
	Llydan y Ffordd	<i>Plantago major</i>
	Llygad Doli	<i>Veronica chamaedrys</i>
	Llygad Ebrill	<i>Ranunculus ficaria</i>
	Llygad y Dydd	<i>Bellis perennis</i>
	Llygad-Llo Mawr	<i>Leucanthemum vulgare</i>
	Llyriad Llwyd	<i>Plantago media</i>
	Llyriad yr Ais	<i>Plantago lanceolata</i>
	Llysiâu'r Cryman	<i>Anagallis arvensis</i>
	Llysiâu'r Droedwst	<i>Aegopodium podagraria</i>
	Llysiâu'r Dryw	<i>Agrimonia eupatoria</i>
	Llysiâu'r gingroen	<i>Senecio jacobea</i>
	Llysiâu'r Groes	<i>Cruciata laevipes</i>
	Llysiâu'r -Gwrid Gwyrdd	<i>Pentaglotis sempervirens</i>
	Llysiâu'r neidr	<i>Polygonum bistorta</i>
	Llysiâu'r Wennol	<i>Chelidonium majus</i>
	Maglys Brith	<i>Medicago arabica</i>
	Maglys Du	<i>Medicago lupulina</i>
	Mantell-Fair	<i>Alchemilla glabra</i>
	Mapgoll	<i>Geum urbanum</i>
	Marchrawnyn yr ardir	<i>Equisetum arvense</i>
	Marchysgallen	<i>Cirsium vulgare</i>
	Marddanhadlen Felen	<i>Lamium purpureum</i>

✓	Rhwyddlwyn Eiddewddail	<i>Veronica hederifolia</i>
	Rhwyddlwyn Main	<i>Veronica filiformis</i>
	Rhwyddlwyn Meddygol	<i>Veronica officinalis</i>
	Rhwyddlwyn y Fagwyr	<i>Veronica arvensis</i>
	Roced y Berth	<i>Sisymbrium officinale</i>
	Saffrwm	<i>Crocus purpureus</i>
	Saffrwm y Ddól	<i>Colchicum autumnale</i>
	Sebonillys	<i>Rumex acetosa</i>
	Serenillys Bach	<i>Stellaria graminea</i>
	Serenillys Mawr	<i>Stellaria holostea</i>
	Sgorpionillys Amryliw	<i>Myosotis discolor</i>
	Sgorpionillys y Maes	<i>Myosotis arvensis</i>
	Suran y Coed	<i>Oxalis acetosella</i>
	Suran y Cwn	<i>Rumex acetosella</i>
	Suran yr Yd	<i>Potentilla anserina</i>
	Swllt Dyn Tlawd	<i>Lunaria annua</i>
	Tafod-y-Llew Gwrychog	<i>Picris echioides</i>
	Tafolen y Coed	<i>Rumex sanguineus</i>
	Tamaid y Cythraul	<i>Succisa pratensis</i>
	Tansi	<i>Tanacetum vulgare</i>
	Tegeirian Bera	<i>Anacamptis pyramidalis</i>
	Tegeirian brych	<i>Dactylorhiza fuchsii</i>
	Tegeirian Coch y Gwanwyn	<i>Orchis mascula</i>
	Tegeirian Pêr	<i>Gymnadenia conopsea</i>
	Tegeirian y waun	<i>Orchis morio</i>
	Tegeirian y Wenynen	<i>Ophrys apifera</i>
	Tegeirian-y-Gors Cynnar	<i>Dactylorhiza incarnata</i>
	Tegeirian-y-gors deheuol	<i>Dactylorhiza praetermissa</i>
	Tegeirian-y-gors gogleddol	<i>Dactylorhiza purpurella</i>
	Teim gwyllt	<i>Thymus polytrichus</i>

✓	Marddanhadlen goch	<i>Lamium purpureum</i>
	Marddanhadlen Wen	<i>Lamium album</i>
	Meddyg y Bugail	<i>Inula conyza</i>
	Meillionen Goch	<i>Trifolium pratense</i>
	Meillionen Hopsaidd	<i>Trifolium campestre</i>
	Meillionen Hopsaidd Fach	<i>Trifolium dubium</i>
	Meillionen Igam-Ogam	<i>Trifolium medium</i>
	Meillionen Wen	<i>Trifolium repens</i>
	Melynydd	<i>Hypochaeris radicata</i>
	Mintys Ysbigog	<i>Mentha spicata</i>
	Mochlys Swynyddlys	<i>Circea lutetiana</i>
	Moronen y Maes	<i>Daucus carota</i>
	Mwsglys	<i>Crocus spp</i>
	Mwsglys	<i>Adoxa moschatellina</i>
	Nionyn Gwyllt	<i>Allium vineale</i>
	Pabi Coch	<i>Papaver rhoeas</i>
	Pabi Cymreig	<i>Meconopsis cambrica</i>
	Pabi hirben	<i>Papaver dubium</i>
	Pannog Felen	<i>Verbascum thapsus</i>
	Peradyl Garw	<i>Leontodon hispidus</i>
	Peradyl yr Hydref	<i>Leontodon autumnalis</i>
	Pidyn y Gog	<i>Arum maculatum</i>
	Pig y Crêyr	<i>Erodium cicutarium</i>
	Pig yr Aran	<i>Geranium molle</i>
	Pig-yr-Aran Lariog	<i>Geranium dissectum</i>
	Pig-yr-Aran y Coed	<i>Geranium sylvaticum</i>
	Pig-yr-Aran y Weirglodd	<i>Geranium pratense</i>
	Plucen Felen	<i>Anthyllis vulneraria</i>
	Pumnales Ymlusgol	<i>Potentilla reptans</i>
	Rhwyddlwyn Dail Teim	<i>Veronica serpyllifolia</i>

✓	Tormaeu y Gweunydd	<i>Saxifraga granulata</i>
	Tresglyn Moch	<i>Potentilla erecta</i>
	Troed y Golomen	<i>Aquilegia vulgaris</i>
	Troed yr Aderyn	<i>Ornithopus perpusillus</i>
	Troed yr Aderyn	<i>Lotus corniculatus</i>
	Troed-y-Cyw Talsyth	<i>Torilis japonica</i>
	Troed y Dryw	<i>Aphanes arvensis</i>
	Y Benboeth	<i>Galeopsis tetrahit</i>
	Y Bengaled	<i>Centaurea nigra</i>
	Y Bengaled Fawr	<i>Centaurea scabiosa</i>
	Y Canclwm	<i>Polygonum aviculare</i>
	Y Feddyges Las	<i>Prunella vulgaris</i>
	Y feidiog lwyd	<i>Artemisia vulgaris</i>
	Y Ganrhi Felen	<i>Blackstonia perfoliata</i>
	Y Goesgoch	<i>Geranium robertianum</i>
	Y Wermod Wen	<i>Tanacetum parthenium</i>
	Ysgallen Bendrom	<i>Carduus nutans</i>
	Ysgallen Ddigoes	<i>Cirsium acaule</i>
	Ysgallen Siarl	<i>Carlina vulgaris</i>
	Ysgallen y Gors	<i>Cirsium palustre</i>
	Ysgallen y Maes	<i>Cirsium arvense</i>
	Ytysen y coed	<i>Lathyrus linifolius</i>
	Ytysen y Ddól	<i>Lathyrus pratensis</i>
	RHEDYN	
	Gwibredynen	<i>Blechnum spicant</i>
	Llawredynen Gyffredin	<i>Polypodium vulgare</i>
	Lloer-Redynen	<i>Botrychium lunaria</i>
	Marchrawnyn yr Ardir	<i>Equisetum arvense</i>
	Marchredynen Fenyw	<i>Athyrium filix-femina</i>

✓	Maswellt Rhedegog	<i>Holcus mollis</i>
	Pawrwellt Cyffredin	<i>Bromus hordeaceus</i>
	Pawrwellt talsyth	<i>Bromus erectus</i>
	Peiswellt	<i>Festuca pratensis</i>
	Peiswellt Coch	<i>Festuca rubra</i>
	Peiswellt y Defaid	<i>Festuca ovina</i>
	Perwellt y Gwanwyn	<i>Anthoxanthum odoratum</i>
	Rhonwellt	<i>Phleum pratense</i>
	Rhonwellt y Ci	<i>Cynosurus cristatus</i>
	Rhygwellt Parhaol	<i>Lolium perenne</i>
	Troed y ceiliog	<i>Dactylis glomerata</i>
	HESG	
	Hesgen Bendrom	<i>Carex pendula</i>
	Hesgen Flewog	<i>Carex hirta</i>
	Hesgen Gynnar	<i>Carex, caryophyllea</i>
	Hesgen hirgron	<i>Carex ovalis</i>
	Hesgen Lwydilas	<i>Carex panicea</i>
	Hesgen Lwydilas y Calch	<i>Carex flacca</i>
	Hesgen Welw	<i>Carex pallascens</i>
	BRWYN	
	Coedfrwynen fawr	<i>Luzula sylvatica</i>
	Coedfrwynen flewog	<i>Luzula pilosa</i>
	Milfyw	<i>Luzula campestris</i>

✓	Marchredynen Iydan	<i>Dryopteris dilatata</i>
	Marchredynen Wryw	<i>Dryopteris felix-mas</i>
	Rhedynen Ungoes	<i>Pteridium aquilinum</i>
	Tafod y Neidr	<i>Ophioglossum vulgatum</i>
	Tafod yr Hydd	<i>Phyllitis scolopendrium</i>
	GLASWELLTAU	
	Breichwellt y Calch	<i>Brachypodium pinnatum</i>
	Breichwellt y Coed	<i>Brachypodium sylvaticum</i>
	Brigwellt Garw	<i>Deschampsia cespitosa</i>
	Brigwellt Main	<i>Deschampsia flexuosa</i>
	Brigwellt y Gwanwyn	<i>Aira praecox</i>
	Bromwellt Hysb	<i>Anizantha sterilis</i>
	Cawnen Ddu	<i>Nardus stricta</i>
	Ceirchwellt Blewog	<i>Helictotrichon pubescens</i>
	Ceirchwellt Melyn	<i>Trisetum flavescens</i>
	Ceirchwellt Tal	<i>Arrhenatherum elatius</i>
	Ceirchwellt y Ddôl	<i>Helictotrichon pratense</i>
	Cribwellt	<i>Koeleria macrantha</i>
	Crydwellt	<i>Briza media</i>
	Cynffonwellt y Maes	<i>Alopecurus pratensis</i>
	Glaswellt y Rhos	<i>Danthonia decumbens</i>
	Gweunwellt Garw	<i>Poa trivialis</i>
	Gweunwellt Llyfn	<i>Poa pratensis</i>
	Gweunwellt Unflwydd	<i>Poa annua</i>
	Gweunwellt y Coed	<i>Poa nemoralis</i>
	Llwydwellt y calch	<i>Sesleria caerulea</i>
	Maeswellt Cyffredin	<i>Agrostis capillaris</i>
	Maswellt Penwyn	<i>Holcus lanatus</i>

SIART O RYWOGAETHAU DANGOSYDD

Niwtral (N), Calchaid (C), Asid (A)

	N	C	A	
Amlaethai'r Waun		X	X	<i>Polygala serpyllifolia</i>
Blodyn Llefrieth	X			<i>Cardamine pratensis</i>
Breichwellt y Calch		X		<i>Brachypodium pinnatum</i>
Brigwellt Main			X	<i>Deschampsia flexuosa</i>
Brigwellt y Gwanwyn			X	<i>Aira praecox</i>
Briweg boeth		X	X	<i>Sedum acre</i>
Briwydd Wen		X	X	<i>Galium saxatile</i>
Cawnen Ddu			X	<i>Nardus stricta</i>
Ceirchwellt Tal	X			<i>Arrhenatherum elatius</i>
Ceirchwellt y Ddôl		X		<i>Helictotrichon pratense</i>
Chwerwlys yr Eithin		X	X	<i>Teucrium scorodonia</i>
Clefryn			X	<i>Jasione Montana</i>
Clust y Llygoden		X	X	<i>Pilosella officinalis</i>
Cneuen y Ddaear	X		X	<i>Conopodium majus</i>
Cor-Rosyn Cyffredin		X		<i>Helianthemum nummularium</i>
Cribell Felen	X	X		<i>Rhinanthus minor</i>
Cynffonwellt y Maes	X			<i>Alopecurus pratensis</i>
Effros blodau mawr	X	X		<i>Euphrasia officinalis etc</i>
Erwain	X	X		<i>Filipendula ulmaria</i>
Ffacbysen y Cloddiau	X			<i>Vicia sepium</i>
Ffenigl yr Hwch	X			<i>Silaum silaus</i>
Glesyn y Coed	X			<i>Ajuga reptans</i>
Harebell Clychau'r Eos	X		X	<i>Campanula rotundifolia</i>
Llusen			X	<i>Vaccinium myrtillus</i>
Llwydwelt y Calch		X		<i>Sesleria albicans</i>
Llygad-Llo Mawr	X	X		<i>Leucanthemum vulgare</i>
Llyisiau'r Dryw	X	X		<i>Agrimonia eupatoria</i>
Llyisiau'r Neidr	X			<i>Polygonum bistorta</i>
Mantell-Fair	X	X		<i>Alchemilla glabra</i>
Marchrawnen yr Ardwr	X			<i>Equisetum arvense</i>
Pawrwellt Talsyth		X		<i>Bromus erectus</i>
Pig-yr-Aran y Coed	X			<i>Geranium sylvaticum</i>
Rhygwellt Parhaol	X			<i>Lolium perenne</i>
Suran y Cwn			X	<i>Rumex acetosella</i>
Tegeirian Bera		X		<i>Anacamptis pyramidalis</i>
Troed y Ceiliog	X			<i>Dactylis glomerata</i>
Troed y Dryw			X	<i>Aphanes arvensis</i>
Troed yr Aderyn			X	<i>Ornithopus perpusillus</i>
Y Ganrhi Felen		X		<i>Blackstonia perfoliata</i>
Ysgallen Siarl		X		<i>Carlina vulgaris</i>
Ytbsen y Ddôl	X	X		<i>Lathyrus pratensis</i>
Cyfanswm				



Caring for God's Acre

11 Drovers House, The Auction Yard, Craven Arms, Shropshire, SY7 9BZ

01588 673041

info@cfga.org.uk

www.caringforgodsacre.org.uk

© Caring for God's Acre

Facebook: facebook.com/CaringforGodsacre

Twitter: @godsacre

YouTube: youtube.com/user/CaringForGodsAcre

Noddwyd yn garedig gan:



THE PRINCE OF WALES'S
CHARITABLE FUND

Cydnabyddiaeth:

Hilary Wallace a Mike Prosser, Ecological Surveys (Bangor)

Mark Ansell, Blast Design

Ffotograffau:

Gofalu am Erw Duw

Peter Carty, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Cafwyd y ffotograffau canlynol gan North East Wildlife Photography: Blodyn Llefrith, Glesyn y Coed, Clychau'r Eos, Erwain, Cribell Felen, Llygad-Ll Mawr, Briwydd Wen, Amlaethai'r Wann, Ytbysen y Ddol.